Delio â phobl y mae arnoch chi arian iddynt

Cadw mewn cysylltiad â'r bobl y mae arnoch chi arian iddynt

Os ydych mewn dyled, mae'n bwysig eich bod yn cadw mewn cysylltiad â'r bobl y mae arnoch arian iddynt (eich **credydwyr**). Os ydych yn poeni am eich dyledion, efallai eich bod yn ofni cysylltu â nhw, ond gallwch gael help i wneud hyn. Os nad yw eich credydwyr yn gwybod bod gennych anawsterau ariannol, byddant yn honni nad ydych am dalu ac yn dechrau cymryd camau yn eich erbyn. Er enghraifft, gallent eich cymryd i'r llys neu, mewn rhai achosion, gallent anfon beilïaid i'ch cartref i gymryd eich eiddo. Mae byth yn rhy hwyr i ddechrau siarad â'ch credydwyr a bydd y mwyafrif o gredydwyr yn gwerthfawrogi'r ffaith eich bod wedi cysylltu â nhw.

Pan fyddwch yn cysylltu â'ch credydwyr, esboniwch iddynt pam eich bod mewn dyled. Os nad yw'r person yn gynorthwyol, gofynnwch i siarad â rhywun uwch. Esboniwch eich bod yn ceisio delio â'ch dyledion a byddwch yn cysylltu â nhw eto pan fyddwch chi'n fwy ymwybodol o faint fedrwch chi fforddio ei dalu. Gofynnwch iddynt a oes modd i chi beidio â thalu llog ar eich dyledion yn y cyfamser. Gelwir hyn yn **rhewi'r llog**. Os bydd yn rhaid i chi dalu llog, bydd eich dyled yn parhau i gynyddu.

Peidiwch ag anwybyddu llythyrau na galwadau ffôn eich credydwyr. Cadwch gopïau o'r holl lythyron yr ydych yn eu hysgrifennu a nodwch bob galwad ffôn neu gyfarfod. Dylai hyn gynnwys enw'r person a gysylltodd â chi a'r hyn a gytunwyd arno.

Cyfrifo faint fedrwch fforddio ei dalu

Gwnewch restr o'r holl bobl y mae arnoch chi arian iddynt a faint o arian sydd arnoch i bob un ohonynt. Yna, cyfrifwch faint fedrwch chi fforddio ei dalu. I wneud hyn, bydd angen i chi gynllunio cyllideb gan restru holl incwm a threuliau eich cartref. Pan fyddwch yn gwybod faint sydd gennych yn weddill ar ôl talu eich treuliau, bydd gennych well syniad o sut allwch dalu eich ôl-ddyledion.

Delio gyda'r dyledion pwysicaf yn gyntaf

Mae'n bwysig eich bod yn delio â rhai dyledion penodol yn gyntaf. Gelwir y rhain yn **ddyledion â blaenoriaeth** oherwydd bod y canlyniadau o beidio â'u talu yn fwy difrifol. Mae dyledion â blaenoriaeth yn cynnwys ôl-ddyledion rhent, morgais a'r dreth gyngor. Pan fyddwch yn cysylltu â'ch credydwyr a blaenoriaeth, rhowch eich taflen gyllido iddynt er mwyn iddynt gael syniad o'ch sefyllfa ariannol. Mae'n bosib y byddwch yn gallu talu ychydig mwy pob mis er mwyn clirio eich ôl-ddyledion. Neu, nid oes gennych unrhyw arian ychwanegol ar hyn o bryd ond rydych yn gwybod y byddwch yn derbyn cyfandaliad mewn tri mis a fydd yn clirio'r ddyled yn gyfan gwbl.

Os na allwch fforddio talu unrhyw arian i'ch credydwyr â blaenoriaeth ac nid yw eich sefyllfa yn debygol o wella, gallai'r canlyniadau fod yn ddifrifol iawn. Mynnwch gyngor ar unwaith.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Sut i ddelio â dyledion llai pwysig

Mae sut i ddelio â dyledion nad ydynt yn flaenoriaeth yn dibynnu ar b'un ai bod gennych unrhyw arian yn weddill ar ôl delio â'ch dyledion â blaenoriaeth a thalu'r treuliau hanfodol megis costau'r cartref a bwyd.

Dylech rannu eich arian yn deg ymhlith yr holl bobl y mae arnoch chi arian llai pwysig iddynt. Gelwir y rhain yn **gredydwyr nad ydynt yn flaenoriaeth**. Dylai eich taliadau fod yn seiliedig ar faint o arian sydd gennych yn weddill a'r swm sy'n ddyledus i bob credydwr nad ydyw'n flaenoriaeth. Rhowch daflen gyllido i'ch credydwyr fel eu bod yn ymwybodol o'ch sefyllfa ariannol.

Peidiwch â chael eich perswadio i dalu symiau na allwch eu fforddio. Ni fyddwch yn gallu eu talu a byddwch yn mynd i fwy o ddyled.

Pan fydd eich credydwyr yn derbyn eich cynnig i dalu, dechreuwch dalu ar unwaith. Hyd yn oed os nad yw credydwr yn derbyn eich cynnig yn syth, fe allwch ddechrau talu. Bydd hyn yn dangos iddynt eich bod yn gweithredu'n ddidwyll ac mae'n bosib y bydd yn eich helpu pan fyddwch yn ceisio dod i drefniant nes ymlaen.

Os na fedrwch gynnig unrhyw arian i'ch credydwyr nad ydynt yn flaenoriaeth, esboniwch pam. Gofynnwch a fyddent yn fodlon i chi beidio â thalu am dri i chwe mis. Dywedwch y byddwch yn cysylltu â nhw cyn gynted â bydd eich sefyllfa yn newid a phan fyddwch yn gallu dechrau talu eto. Neu, gallech gynnig rhandal o £1.00 y mis i'ch holl gredydwyr.

Os na fedrwch ddod i gytundeb gydag un o'ch credydwyr, cysylltwch ag ymgynghorydd profiadol. Peidiwch â chael eich perswadio i roi mwy o arian i un credydwr. Byddai hyn yn golygu y bydd gennych lai o arian i dalu'r gweddill. Os nad yw eich credydwyr yn credu eich bod yn eu trin yn deg, gallant wrthod eich cynnig yn gyfan gwbl a dechrau achos llys yn eich erbyn.

Efallai y bydd rhai credydwyr yn cynnig rhoi benthyciad arall i chi er mwyn cyfuno'ch dyledion. Peidiwch â chael benthyciad arall nes eich bod wedi cael cyngor ariannol. Os ydych yn ansicr ynglŷn â'r hyn i'w wneud nesaf, mynnwch gyngor arbenigol.

Os yw eich amgylchiadau yn newid

Os yw eich amgylchiadau yn newid, cynlluniwch gyllideb newydd a gwnewch gynigion newydd sy'n seiliedig ar faint fedrwch chi ei fforddio. Ysgrifennwch at eich credydwyr er mwyn esbonio'r cynnig newydd ac anfonwch gopi o'ch cyllideb newydd atynt.

Bydd y mwyafrif o **gredydwyr nad ydynt yn flaenoriaeth** dim ond yn derbyn taliadau am gyfnod penodol o amser. Mae'r cyfnod hwn fel arfer rhwng tri a chwe mis. Os ydych yn talu'n rheolaidd, byddant yn cysylltu â chi ar ddiwedd y cyfnod hwn i ddarganfod p'un ai bod eich amgylchiadau wedi newid. Efallai y bydd angen i chi anfon eich cyllideb ddiweddaraf atynt.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Sut i ddelio â chasglwyr dyledion

Mae'n bosib y bydd credydwyr yn trosglwyddo'ch achos i **asiantaeth casglu dyledion** sy'n golygu na fyddant yn delio â chi yn bersonol o hyn ymlaen. Peidiwch â gadael casglwyr dyledion i roi pwysau arnoch i wneud trefniadau na allwch eu cadw. Mae yna ganllawiau y mae'n rhaid i gasglwyr dyledion eu dilyn.

Er enghraifft, nid oes hawl ganddynt eich dychrynu chi, aflonyddu arnoch neu honni bod ganddynt fwy o rym cyfreithiol na'r hyn sydd wir ganddynt. Nid oes hawl ganddynt wahaniaethu yn eich erbyn oherwydd eich hil, rhyw, anabledd, rhywioldeb, neu'ch crefydd. Mae'n rhaid i gasglwyr dyledion fod yn ofalus iawn wrth ddelio â rhywun sydd â salwch corfforol neu feddyliol. Er enghraifft, ni ddylai casglwr dyledion barhau i ymweld â pherson os yw'n amlwg bod y person hwnnw yn dioddef o salwch meddyliol.

Os nad yw casglwyr dyledion yn dilyn y canllawiau hyn, gallwch gymryd camau yn eu herbyn. Os yw casglwyr dyledion yn aflonyddu arnoch, mynnwch gyngor pellach gan ymgynghorydd profiadol.

Sut i ddelio ag achos llys

Mae'n bosib y bydd credydwr yn bygwth eich cymryd i'r llys. Fodd bynnag, fel arfer mae'n rhaid iddynt anfon rhybudd ysgrifenedig atoch yn gyntaf sy'n dweud y byddant yn dechrau achos llys yn eich erbyn os nad ydych yn talu eich dyled.

Os yw achos llys wedi dechrau, sicrhewch eich bod bob amser yn ymateb i lythyron y llys o fewn y terfyn amser. Mynnwch gyngor os nad ydych yn gwybod sut i lenwi'r ffurflenni hyn.

Os ydych yn cytuno bod arnoch yr arian sy'n cael ei hawlio, llenwch y ffurflen addef a gewch gyda dogfennau'r llys. Bydd angen i chi roi manylion am eich sefyllfa ariannol. Os ydych eisoes wedi cynllunio cyllideb, fe allwch ei defnyddio i'ch helpu i lenwi'r ffurflen. Os ydych eisoes wedi cyfrifo faint fedrwch chi ei roi i'ch credydwyr, gallwch gynnig yr un faint.

Os caiff eich cynnig ei wrthod neu os nad ydych yn derbyn bod arnoch unrhyw arian, mynnwch gyngor gan ymgynghorydd dyled profiadol.

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth

Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Llinell Gymorth National Debtline

Mae'r National Debtline yn rhoi gwybodaeth rad ac am ddim i bobl. Mae hefyd yn darparu pecyn gwybodaeth ynglyn â delio â dyled. Mae'r llinell gymorth ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9.00am tan 9.00pm a 9.30am tan 1.00pm ar ddydd Sul.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Y rhif ffôn yw 0808 808 4000 a'r wefan yw www.nationaldebtline.co.uk.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Cymorth gyda dyled
- Ôl-ddyledion y dreth gyngor
- Ôl-ddyledion morgais
- Taflen Gyllido
- Credyd
- Ôl-ddyledion rhent
- Beilïaid

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 1 Ebrill 2008, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr